

DEAF WORKS EVERYWHERE

ADDASU GWEITHGAREDDAU I GYFLWYNO DYSGU O BELL

**CANLLAW YCHWANEGOL I BECYN CYMORTH BYDDAR
YN GWEITHIO YM MHOBMAN AR GYFER GWEITHWYR
CYMORTH SYNHWYRAIDD PROFFESIYNOL**



National
Deaf Children's
Society
CYMRU

THE CAREERS &
ENTERPRISE
COMPANY

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Cynllun gwers 1 – Cyflwyniad a thorri'r garw	5
Cynllun gwers 2 – Meddu ar eich byddardod	8
Cynllun gwers 3 – Eich hawliau	10
Cynllun gwers 4 – Gobeithion a breuddwydion gyrfa	12
Cynllun gwers 5 – Adeiladu'ch brand	16
Cynllun gwers 6 – Opsiynau Ôl-16	18
Cynllun gwers 7 – Cefnogaeth a thechnoleg	20
Cynllun gwers 8 – Cynllunio camau gweithredu i'ch gyrfa	22



CYFLWYNIAD

O ganlyniad i bandemig COVID-19, mae llawer ohonon ni wedi gorfod addasu i weithio ar-lein, yn cynnwys athrawon, Athrawon Plant Byddar a myfyrwyr.

Mae ein pecyn cymorth Byddar yn Gweithio ym Mhobman wedi'i gynllunio i'w gyflwyno wyneb-yn-wyneb ac mae'n gweithio gorau yn y fformat hwn. Ond, mae'r pandemig yn golygu bod yna angen dull cyfunol i ddysgu a all parhau yn hir ar ôl i gyfnodau clo ddod i ben.

Bydd y canllaw ychwanegol hwn yn dangos i chi sut i addasu'r gweithgareddau yn y prif becyn cymorth i'w cyflwyno o bell ar-lein, wrth i chi osod yr adnodd o fewn eich awdurdod lleol. Hefyd mae yna ddolenni i ddeunyddiau'r adnodd sydd wedi cael eu haddasu i chi eu defnyddio i gynnal y sesiynau hyn, ar-lein yn **www.ndcs.org.uk/dwetoolkit** o dan 'Supplementary resources'. Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n anfon deunyddiau'r gweithgareddau i fyfyrwyr trwy ddolen yn y blwch sgwrsio wrth i chi ddechrau pob gweithgaredd newydd.

Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n lawrlwytho a dod yn gyfarwydd â phrif becyn cymorth Byddar yn Gweithio ym Mhobman, yr adnoddau a'r cyflwyniad PowerPoint cyn darllen trwy'r canllaw ychwanegol hwn. Rydyn ni hefyd yn argymhell eich bod chi'n cwblhau'r e-ddysgu fel eich bod chi'n gyfarwydd â rhai o'r awgrymiadau yn y canllaw hwn. Mae'r adnoddau hyn i gyd ar gael yn **www.ndcs.org.uk/dwetoolkit**.

Mae pob ysgol yn defnyddio gwahanol lwyfannau i gyflwyno dysgu ar-lein, ac rydyn ni'n eich annog chi i ddefnyddio ymarferoldeb eich llwyfan ddewisol gymaint â phosib. Efallai bydd hyn yn cynnwys pleidleisiau, ystafelloedd ymneilltuo, byrddau gwyn rhyngweithiol neu swyddogaethau anodi, yn ogystal â'r swyddogaeth sgwrsio ddibynadwy.

Rydyn ni wedi cynnig arweiniad lle mae'n briodol ar addasu eich gweithgareddau ar gyfer gwahanol lwyfannau. Mae'r amseriadau sy'n cael eu dangos yn arweiniad gweithgareddau'r gwersi yn ganllaw yn unig. Yn dibynnu ar y sesiwn rydych chi'n ei gynnal, ble rydych chi'n ei gynnal a deinameg eich grŵp, efallai bydd gweithgareddau yn cymryd mwy neu lai o amser. Mae hyn yn hollol iawn a'r canllaw gorau yw ichi fod mor hyblyg â phosib. Defnyddiwch yr arweiniad hwn fel man cychwyn ac addaswch yn ôl yr angen.

Efallai bydd gennych chi adnoddau ar-lein yn barod a fydd yn cyflawni nodau pob cynllun gwera. Os na, edrychwch ar ein hawgrymiadau am addasu gweithgareddau'r pecyn cymorth dros y tudalennau dilynol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni yn **dwe@ndcs.org.uk**.



CYNLLUN GWERS 1: CYFLWYNIAD A THORRI'R GARW

Gweithgareddau		Amseru	Adnoddau
Gweithgaredd 1	Gêm rhifau	10 munud	
Gweithgaredd 2	Gêm enwau swyddi	10 munud	● A 1.2x Enwau swyddi
Gweithgaredd 3	Gêm Post-its	10 munud	● Pum eitem
Gweithgaredd 4	Bingo Pobl	15 munud	

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys pedwar gweithgaredd torri'r garw. Gall dau o'r rhain, y gêm enwau swyddi a'r gêm post-its, gael eu haddasu'n hawdd er mwyn eu cyflwyno nhw ar-lein:

GWEITHGAREDD 2 **GÊM ENWAU** **SWYDDI**

13–16/16–25 oed



Sleid 7



**A 1.2
Enwau
swyddi**



**A 1.2x Enwau
swyddi**

Camau

- 1** Esboniwch i'r grŵp fod rhaid i bawb feddwl am swydd sy'n dechrau gyda llythyren gyntaf eu henw.
- 2** Penderfynwch ym mha drefn dylai'r grŵp fynd – er enghraifft yn nhrefn yr wyddor, neu yn ôl eu sgriniau o'r top i'r gwaelod.
- 3** Dylai pob person ifanc ddweud ei enw a swydd, er enghraifft Doctor Donna neu Athro Alun.
- 4** Yr unig reol yw ni ellir defnyddio'r un swydd dwywaith, dim ots sawl person sydd yn y grŵp sydd ag enw sy'n dechrau gyda'r un llythyren. Os na all rhywun feddwl am swydd, maen nhw'n colli ei dro yn y rownd hynny.

5

Cadwch y gêm i fynd nes bod syniadau pawb wedi dod i ben.

Gallwch chi ddefnyddio'r rhestr *Enwau swyddi* – adnodd ychwanegol 1.2x i helpu dechrau'r gweithgaredd, neu i roi awgrymiadau i'r grŵp os ydy eu syniadau yn mynd yn brin. Dangoswch hwn ar eich sgrin eich hunan, neu anfonwch gopi i bob myfyriwr cyn cynnal y gweithgaredd. Efallai hoffech chi greu eich rhestr eich hunan wrth i fwy o enwau swyddi gael eu hawgrymu mewn sesiynau yn y dyfodol.

GWEITHGAREDD 3 **GÊM POST-ITS**

13–16/16–25 oed



10 munud



Sleid 7



Pum eitem

Steps

1

Esboniwch i'r grŵp y dylai pob person ddewis gwrthrych, er enghraifft, ffyrc, llyfrau, darnau o bapur, neu bennau – a chasglu cymaint o'r gwrthrych hwnnw ag y gallan nhw (hyd at bump yr un). Peidiwch â dweud wrth y grŵp pam mae'r rhif hwn yn bwysig.

2

Wedyn mae'n rhaid i bob person dweud wrth y grŵp un peth amdanyn nhw eu hunain am bob gwrthrych maen nhw wedi'i gasglu. Er enghraifft, os ydyn nhw wedi casglu pedair llwy, dylen nhw ddweud wrth y grŵp pedwar peth amdanyn nhw eu hunain. Gall hyn fod yn unrhyw beth, er enghraifft ble maen nhw'n byw neu beth yw ei hoff fwyd.

3

Penderfynwch ym mha drefn i symud o gwmpas y grŵp a rhowch bob person ifanc ei dro i siarad. Er enghraifft efallai byddwch chi'n gofyn iddyn nhw yn nhrefn yr wyddor, neu drefn eu camerâu ar eich sgrin.

Noder: Efallai byddwch chi am ddechrau'r gweithgaredd hwn drwy rannu gwybodaeth amdanoch chi eich hunan fel bod y grŵp yn deall sut i chwarae'r gweithgaredd ac i'w helpu nhw teimlo'n fwy cyfforddus.

Addasiad i'r cyflwyniad PowerPoint



Sleidiau 8 a 9

Ar ôl y gemau torri'r garw, mae sleidiau 8 a 9 yn gofyn cwestiynau er mwyn darganfod beth mae'r grŵp yn gwybod am bynciau penodol. Os ydych chi'n defnyddio llwyfan sy'n eich galluogi chi i ddefnyddio pleidleisiau, rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n cwblhau'r cwestiynau hyn fel pleidlais. Neu gallwch chi ofyn i fyfyrwyr bleidleisio drwy godi eu dwylo.

Er mwyn gallu mesur faint mae'r myfyrwyr wedi dysgu, gallwch chi redeg y cwis hwn eto ar ddiwedd y wers, neu ar ddiwedd y gweithdy cyfan.



Sleid 10

Mae sleid 10 yn gofyn a ydy'ch myfyrwyr wedi meddwl am ba swydd maen nhw am ei wneud. Os ydych chi'n defnyddio llwyfan sy'n eich galluogi chi i ddefnyddio bwrdd gwyn neu rywbeth tebyg, rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n defnyddio rhai sleidiau gwag a gofyn i'r myfyrwyr wneud nodiadau arnyn nhw, i ateb eich cwestiynau.

Neu gallwch chi gynnal hwn fel sesiwn sgwrs anffurfiol, neu gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu eu hatebion yn unigol, naill ai fel gwaith cartref neu cyn y sesiwn i roi rhywfaint o gyfeiriad ar gyflwyno'r sesiwn. Gallwch chi hefyd ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio.



CYNLLUN GWERS 2: MEDDU AR EICH BYDDARDOD

Gweithgareddau		Amseru	Adnoddau
Gweithgaredd 1	Pethau cadarnhaol a heriau sy'n rhan o fod yn fyddar	20 munud	Nid oes angen dim

Mae'r cynllun gwers hwn yn cynnwys gweithgaredd am y pethau cadarnhaol a'r heriau o fod yn fyddar, a all gael ei addasu mewn sawl ffordd. Pwrpas y gweithgaredd hwn yw bod y grŵp yn meddwl am ba rwystrau y gallen nhw eu hwynebu (a sut i'w goresgyn nhw) ac i feddwl yn greadigol am y buddion sy'n gysylltiedig â byddardod.



GWEITHGAREDD 1 **PETHAU** **CADARNHAOL A'R** **HERIAU SY'N RHAN** **O FOD YN FYDDAR**



20 munud



Sleid 15



Nid oes
angen dim

13–16/16–25 oed

Addasiad 1

Os ydy'ch grŵp yn un fawr, rhannwch eich myfyrwyr mewn ystafelloedd ymneilltuo llai. Gofynnwch iddyn nhw bentyrru syniadau i greu rhestr eu hunain o'r pethau cadarnhaol a'r heriau o fod yn fyddar cyn rhannu eu syniadau gyda'r grŵp ehangach. Os ydy'ch grŵp yn fach, gall pawb weithio gyda'i gilydd mewn un ystafell rithiol.

- Os oes angen gweithgaredd ychwanegol arnoch chi, gofynnwch i'r grŵp/grwpiau ddewis un o'r heriau ac i greu cynllun am sut i'w oresgyn.

Addasiad 2

Os oes gennych chi fynediad at ymarferoldeb bwrdd gwyn, gallwch chi ofyn i fyfyrwyr ysgrifennu eu syniadau ar sleidiau gwag. Gallwch chi hefyd ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio i ofyn i'r myfyrwyr ysgrifennu syniadau eu hunain am y pethau cadarnhaol a'r heriau o fod yn fyddar.

Addasiad 3

Ar dudalen 28 o brif becyn cymorth Byddar yn Gweithio ym Mhobman, mae yna restr o bethau cadarnhaol a heriau awgrymedig. Ysgrifennwch yr eitemau hyn mewn trefn ar hap ar sleid neu gan ddefnyddio offeryn bwrdd gwyn os oes un ar gael i chi. Gofynnwch i'r grŵp bleidleisio trwy ddangos eu dwylo pa rai sy'n gadarnhaol, a pha rai sy'n heriau. Gallwch chi hefyd ofyn i fyfyrwyr unigol rannu ei feddyliau, neu gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu eu hatebion nhw yn y blwch sgwrsio.



CYNLLUN GWERS 3: EICH HAWLIAU

Gweithgareddau		Amseru	Adnoddau
Gweithgaredd 1	Cwis chwalu mythau	10 munud	<ul style="list-style-type: none">● A 3.1x Cwis chwalu mythau● A. 3.2x Atebion chwalu mythau

Mae'r cynllun gwers hwn yn cynnwys un gweithgaredd, y cwis chwalu mythau. Gallwch chi gynnal y gweithgaredd hwn gan ddefnyddio sleid 21 yn y cyflwyniad PowerPoint a gofyn i'r bobl ifanc bleidleisio drwy ddangos eu dwylo neu drwy ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio. Neu, rydyn ni wedi troi hon yn ddogfen ryngweithiol, *Cwis chwalu mythau* – adnodd ychwanegol 3.1x i chi ei defnyddio os oes well gennych chi.



GWEITHGAREDD 1 MYTH BUSTING QUIZ

13–16/16–25 oed



10 munud



Sleid 21



A 3.1 Cwis chwalu mythau, A 3.2 Atebion chwalu mythau

Os ydych chi'n defnyddio'r ddogfen ryngweithiol, dilynwch y cyfarwyddiadau isod:

1

Anfonwch gwestiynau'r cwis i'r grŵp a gofynnwch i'r myfyrwyr ei lawrlwytho a'u harbed i'w cyfrifiadur.

2

Gall myfyrwyr gwblhau hon yn unigol, neu mewn grwpiau bach os oes ystafelloedd ymneilltuo ar gael.

3

Ewch drwy'r cwis gan ofyn i'ch myfyrwyr farcio'r atebion ar eu dogfennau Word eu hunain, neu drwy ddangos eu dwylo.

4

Ewch drwy'r atebion gan eu dangos nhw ar eich cyfrifiadur. Hefyd mae yna ddogfen ar wahân, Atebion chwalu mythau – adnodd ychwanegol 3.2x a allwch chi anfon at eich myfyrwyr ar ôl iddyn nhw gwblhau'r cwis.

Gallwch chi hefyd gynnal y gweithgaredd hwn gan ddefnyddio'r swyddogaeth pleidleisio os oes un ar gael i chi.



CYNLLUN GWERS 4: GOBEITHION A BREUDDWYDION GYRFA

Gweithgareddau		Amseru	Adnoddau
Gweithgaredd 1	Cryfderau, Diddordebau a Phersonoliaeth	20 munud	<ul style="list-style-type: none"> ● A 4.1x Cardiau Cryfderau a diddordebau ● A 4.2x Cardiau Personoliaeth ● A 4.3x Amdanaf i ● A 4.4x Proffiliau diwydiannau ● Papur siart droi/pennau
Gweithgaredd 2	Bocs clebran	15 munud	<ul style="list-style-type: none"> ● A 4.5x Bocs clebranx

Argymhellir dau weithgaredd ar gyfer y cynllun gwrs hwn:

1. Cryfderau, diddordebau a phersonoliaethy
2. Bocs clebran

GWEITHGAREDD 1 **CRYFDERAU,** **DIDDORDEBAU A** **PERSONOLIAETH**

16–25 oed



20
munud



Sleid
25



A 4.1x Cardiau
Cryfderau/
Diddordebau,
A 4.2x Cardiau
personoliaeth,
A 4.3x Amdanaf i,
A 4.4x Proffiliau
diwydiannau ,
Papur siart droi/
pennau

Mae'r gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â sleid 24 a 25 y cyflwyniad PowerPoint, a gall gael ei gynnal yn dda gyda swyddogaeth bwrdd gwyn neu anodi, os ydy'r rhain ar gael i chi. Gall myfyrwyr hefyd gynnig atebion yn y blwch sgwrsio neu yn ystod trafodaeth.

Mae yna hefyd fersiwn ddigidol o'r gweithgaredd hwn yn y modiwl e-ddysgu (Cynllun gwrs 4) lle gofynnwyd i chi nodi cryfderau, diddordebau a nodweddion personoliaeth ar Beth y meddyg, Yvonne sy'n gweithio mewn TG ac Onur y gyrrwr Uber. Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n addasu'r gweithgaredd yn y modiwl e-ddysgu fel a ganlyn:

- 1 Gan ddefnyddio swyddogaeth bwrdd gwyn, neu gan greu sleid o flaen llaw, tynnwch amlinell o berson a rhowch rôl swydd iddyn nhw (e.e. meddyg). Neu dewiswch rôl swydd arall o'r sleidiau 27 i 29 y cyflwyniad PowerPoint.
- 2 Dangoswch y cardiau *Cryfderau a diddordebau* - adnodd ychwanegol 4.1x ar eich cyfrifiadur neu anfonwch nhw i'r myfyrwyr o flaen llaw.
- 3 Gofynnwch i'r grŵp (neu grwpiau llai os ydych chi'n eu rhannu mewn ystafelloedd ymneilltuo) ddewis y cryfderau a'r diddordebau a fydd yn addas i feddyg. Gallan nhw wneud hyn drwy ysgrifennu yn y blwch sgwrsio, gweiddi atebion, neu drwy ddefnyddio'r swyddogaeth anodi/bwrdd gwyn.
- 4 Wedyn, gan ddefnyddio'r *Cardiau personoliaeth* - adnodd ychwanegol 4.2x, gofynnwch i'r grŵp/grwpiau ddewis y nodweddion personoliaeth a fydd yn addas i feddyg. Gallan nhw wneud hyn drwy ysgrifennu yn y blwch sgwrsio, gweiddi atebion, neu drwy ddefnyddio'r swyddogaeth anodi/bwrdd gwyn.
- 5 Hefyd efallai hoffech chi ddewis rôl swydd o sleidiau 27 i 29 y cyflwyniad PowerPoint a chasglu awgrymiadau o'r grŵp am gryfderau, diddordebau a nodweddion personoliaeth y rôl honna.
- 6 Neu gallwch chi ofyn i'r myfyrwyr ymchwilio un o'r rolau swydd fel gwaith cartref a chyflwyno adborth yn y sesiwn nesaf (os ydych chi'n rhannu'r sesiynau dros sawl wythnos).

Neu:

- 1 Gofynnwch i bob person dynnu amlinell o'i hunan ar ddarn o bapur gartref.
- 2 Yn defnyddio'r *Cardiau cryfderau a diddordebau* – adnodd ychwanegol 4.1x, gofynnwch i bob person ddewis ambell gryfder a diddordeb maen nhw'n credu sydd ganddyn nhw, ac ysgrifennu'r rhain ar ei amlinell.
- 3 Wedyn, gan ddefnyddio'r *Cardiau personoliaeth* – adnodd ychwanegol 4.2x, gofynnwch i bob person ddewis ambell nodwedd personoliaeth maen nhw'n credu sydd ganddyn nhw, ac ysgrifennu'r rhain ar ei amlinell.
- 4 Gofynnwch i bob myfyriwr (neu sawl myfyriwr) ddisgrifio'r hyn maen nhw wedi dewis i'r grŵp.
- 5 Gallwch chi hefyd ddewis gosod y gweithgaredd hwn fel gwaith cartref.

Trydydd opsiwn, i grwpiau hŷn:

- 1 Anfonwch y *Cardiau cryfderau a diddordebau* – adnodd ychwanegol 4.1x, a *Chardiau personoliaeth* – adnodd ychwanegol 4.2x atyn nhw. Gofynnwch i'r myfyrwyr aroleuo'r cryfderau, diddordebau a nodweddion personoliaeth maen nhw'n teimlo sydd ganddyn nhw.
- 2 Gofynnwch i bob myfyriwr neu sawl myfyriwr ddisgrifio'r hyn maen nhw wedi dewis i'r grŵp.

Rydyn ni hefyd wedi creu taflen *Amdanaf i* – adnodd ychwanegol 4.3x y gallwch chi anfon at y myfyrwyr i'w cwblhau ar eu cyfrifiaduron. Mae hyn yn gweithio llawer gwell gyda grwpiau hŷn, a hefyd yn gweithio yn dda fel gweithgaredd gwaith cartref i grynhoi'r cynnwys dysgu. Mae yna hefyd *Proffiliau diwydiant* – adnodd ychwanegol 4.4x i chi anfon at eich myfyrwyr.

GWEITHGAREDD 2 BOCS CLEBRAN

13–16 oed



20 munud



Sleid 25



A 4.4x
Proffiliau
diwydiannau,
A 4.5x Bocs
clebran, Papur
siart droi/
pennau

Os oes gan y myfyrwyr gyfleusterau printio gartref, gallwch chi anfon y *Bocs clebran* – adnodd ychwanegol 4.5x iddyn nhw i greu gartref ac wedyn gofynnwch iddyn nhw nodi rhai atebion i'r cwestiynau sydd wedi'u rhestru ar yr adnodd *Bocs clebran*.

Neu, yn gweithio'n unigol neu mewn ystafelloedd ymneilltuo bach, gall myfyrwyr naill ai:

- ysgrifennu'r atebion i'r cwestiynau
- eu trafod nhw gydag eraill yn eu grŵp
- eu trafod nhw gyda chi a/neu'r grŵp mwy.



CYNLLUN GWERS 5: ADEILADU'CH BRAND

Gweithgareddau		Amseru	Adnoddau
Gweithgaredd 1	Adeiladu jiráff	20 munud	
Gweithgaredd 2	Adeiladu tŵr	20 munud	
Gweithgaredd 3	Profiad yn cyfrif	20 munud	● A 5.1x Cylchoedd

Mae yna dri gweithgaredd yn yr adran hon. Mae dau ohonynt nhw yn cynnwys gwaith grŵp, adeiladu jiráff ac adeiladu tŵr, felly nid yw'n hawdd i'w addasu er mwyn eu cyflwyno ar-lein. Bwriad y gweithgareddau hyn yw tanlinellu sgiliau fel cyfathrebu, gwaith tîm ac arweinyddiaeth. Felly, efallai byddwch chi'n ystyried rhannu'r myfyrwyr mewn grwpiau yn ystafelloedd ymneilltuo, neu weithio fel un grŵp ar weithgaredd a fydd yn annog y sgiliau hyn, fel dylunio broliant gwerthu. Dyma enghraifft o sut allwch chi gynnal y gweithgaredd hwn:

1

Gofynnwch i'r grŵp feddwl am gynnyrch i'w gwerthu. Os oes cyfleuster bwrdd gwyn ar gael, gofynnwch iddyn nhw dynnu llun o'r cynnyrch. Os na, gofynnwch iddyn nhw feddwl am yr hyn maen nhw am werthu a sut mae'n edrych. Dylai'r tîm ddewis cynnyrch a gweithio fel tîm i gyflwyno'r syniad.

2

Gofynnwch i'r grŵp greu disgrifiad o'r cynnyrch. Sut mae'n edrych? Beth fydd y pris? Beth yw ei nodweddion? Sut allwch chi ei brynu?

3

Gofynnwch i'r grŵp gytuno ar slogan gofiadwy i werthu'r cynnyrch.

4

Pan maen nhw wedi cwblhau'r dasg, gofynnwch i'r grwpiau ddod yn ôl i'r brif ystafell a cheisio 'gwerthu' eu cynhyrchion i'r bobl eraill yn y grŵp.

5

Gofynnwch iddyn nhw fyfyrrio ar beth ddigwyddodd yn yr ystafelloedd ymneilltuo, a thynnwch allan y sgiliau roedden nhw'n eu dangos wrth greu'r cynhyrchion a'u gwerthu nhw.

GWEITHGAREDD 3 PROFIAD YN CYFRIF



20 munud



Sleid 34



A 5.1x
Cylchoedd

16–25 oed

Gall y drydydd gweithgaredd yn y cynllun gwera hwn gael ei addasu i'w gyflwyno o bell yn hawdd.

1

Gofynnwch i'r myfyrwyr i dynnu tri chylch mawr ar ddarn o bapur fel yn yr adnodd ychwanegol *Cylchoedd* – 5.1x, neu anfonwch yr adnodd at y myfyrwyr yn uniongyrchol.

2

Gofynnwch iddyn nhw feddwl am eu hobiau a'u diddordebau, pa brofiad gwaith maen nhw wedi cael, a pha waith cymunedol neu wirfoddoli maen nhw wedi'i wneud.

3

Mae unrhyw rai sy'n cael eu hailadrodd yn cael eu tynnu yn y cylch llai rhwng y ddau mwy. Gall unrhyw rai sy'n perthyn ym mhob un o'r tri gael eu hysgrifennu yn yr adran destun rhyngweithiol ar waelod y dudalen.

4

Wedyn gofynnwch i'r myfyrwyr edrych ar yr hyn maen nhw wedi'i ysgrifennu, ac i adnabod unrhyw sgiliau a all fod yn bwysig i gyflogwyr. Esboniwch i'ch myfyrwyr y dylen nhw amlygu'r rhain pan fyddan nhw'n edrych am, ac yn gwneud ceisiadau am swyddi.

Efallai hoffech chi edrych eto ac addasu'r modiwl e-ddysgu (Cynllun gwera 5) i'w ddefnyddio gyda'ch myfyrwyr. Gwnewch hyn drwy greu rhestr o sgiliau meddal a sgiliau caled. Neu defnyddiwch y rhai maen nhw wedi'u hawgrymu ar sleid 36 y cyflwyniad PowerPoint a gofynnwch i'r myfyrwyr rannu'r rhain i ddau grŵp yn defnyddio'r swyddogaeth bwrdd gwyn, sleid wag, neu drwy ddangos eu dwylo.



CYNLLUN GWERS 6: OPSIYNAU ÔL-16

Gweithgareddau		Amseru	Adnoddau
Gweithgaredd 1	Mynd ar daith	15 munud	● PP 39–42
Gweithgaredd 2	Opsiynau ôl-16 (A)	15 munud	● PP 43–51
	Opsiynau ôl-16 (B)	15 munud	● PP 43–51
Gweithgaredd 3	Teithio'r byd	10 munud	● PP 53–55
Gweithgaredd 4	Cwis gyrfaoedd	5 munud	● A 6.3x Cwis ac atebion gyrfaoedd PP 57

Mae yna bedwar gweithgaredd yn yr adran hon. Gallwch chi gynnal mynd ar daith a theithio'r byd gyda'ch sleidiau yn hawdd.

GWEITHGAREDD 4 CWIS GYRFAOEDD

13–16/16–25 oed



5 munud



Sleid 57



**A 6.3x Cwis
ac atebion
gyrfaoedd**

Gall y *Cwis gyrfaoedd* opsiynol – adnodd ychwanegol 6.3x gael ei gynnal gyda'ch sleidiau, ond hefyd rydyn ni wedi ei droi yn ddogfen word ryngweithiol.

- Gallwch chi anfon y ddogfen hon i'ch myfyrwyr a gofyn iddyn nhw i'w lawrlwytho a'i chwblhau.
- Neu gallwch chi ofyn iddyn nhw gwblhau'r cwis fel grŵp drwy bleidleisio ar yr ateb, yn debyg i'r cwis chwalu mythau.
- Rhoddir yr atebion ar wahân yn adnodd ychwanegol 6.4x er mwyn i chi fynd trwyddyn nhw gyda'r grŵp.



GWEITHGAREDD 2 **OPSIYNAU ÔL-16** **(A + B)**

13–16 oed



15
munud



Sleidiau
43-51



Nid oes
angen dim

Bwriad y gweithgaredd mwyaf, Opsiynau ôl-16, yw dangos gall teithiau gyrfaoedd gymryd nifer o ffyrdd, a gall pobl neidio dros gamau, ail-wneud camau neu gymryd camau gwahanol er mwyn cyrraedd eu nod gyrfa ddymunol. Ar gyfer y gweithgaredd hwn, argymhellir dau addasiad:

1. Gofynnwch i riant, gwarcheidwad, neu ffrind agos i'r teulu am ei yrfa nhw, a gofynnwch i'r myfyriwr i'w phlotio.
2. Gofynnwch i'r myfyriwr ysgrifennu ei feddyliau am beth all ei gynlluniau gyrfa nhw ei hun fod.

Gallwch chi ddefnyddio'r astudiaethau achos ar sleid 56 yn eich cyflwyniad PowerPoint fel esiampl o sut i blotio.



CYNLLUN GWERS 7: CEFNOGAETH A THECHNOLEG

Gweithgareddau		Amseru	Adnoddau
Gweithgaredd 1	Cymorth cyfathrebu	10 munud	● A 7.1x Rhestr cymorth cyfathrebu
Gweithgaredd 2	Cwis gyrfaoedd	5 munud	● A 7.2x Cwis technoleg ● A 7.3x Atebion technoleg
Gweithgaredd 3	Gweithgaredd sefyllfaoedd	15 munud	● A 7.5x Sefyllfaoedd

Mae yna dri gweithgaredd o fewn y cynllun gwera hwn, ac argymhellir yr addasiadau dilynol:



GWEITHGAREDD 1 **CYMORTH** **CYFATHREBU**

13–16/16–25 oed



10 munud



Sleid 59



**A 7.1x Cardiau
cymorth,
cyfathrebu**

- Mae sleidiau 60 a 61 yn eich cyflwyniad PowerPoint wedi'u hanimeiddio fel y gallwch chi daflu llun ar y sgrin a gofyn i'r myfyrwyr ddyfalu'r ateb. Rydyn ni wedi rhoi'r geiriau mewn rhestr cymorth cyfathrebu – adnodd ychwanegol 7.1x fel y gallwch chi eu hanfon nhw at eich myfyrwyr gan fydd yn anodd dangos y ddau ar yr un pryd.
- O'r rhestr, dangoswch y llun cyntaf ar y sleid a gofynnwch i'r myfyrwyr weiddi neu ysgrifennu'r ateb yn y blwch sgwrsio i ba un o'r esboniadau sy'n mynd gyda'r ffoto. Gwnewch hyn gyda phob ffoto.
- Efallai hoffech chi wneud hyn drwy bleidlais, gan restru pob un o'r atebion posib fel gall myfyrwyr bleidleisio ar enw pob llun.



GWEITHGAREDD 2 CWIS GYRFAOEDD

13–16/16–25 oed



5 munud



Sleid 64



A 7.2x Cwis
technolog,
A 7.3x Atebion
technolog

- Mae hwn wedi cael ei addasu i ddogfen ar-lein ryngweithiol *Cwis technolog* – adnodd ychwanegol 7.2x y gallwch chi ei hanfon at eich myfyrwyr i'w lawrlwytho a'i harbed i'w cyfrifiaduron. Neu gallwch chi ei gynnal gyda'r grŵp cyfan, a gofyn iddyn nhw bleidleisio ar yr atebion.
- Unwaith mae'r myfyrwyr wedi marcio eu hatebion, gallwch chi naill ai anfon yr *Atebion cwis technolog* atyn nhw mewn e – adnodd ychwanegol 7.3x, neu ddangos yr atebion gan ddefnyddio sleid 64 y cyflwyniad PowerPoint.



GWEITHGAREDD 3 GWEITHGAREDD SEFYLLFAOEDD

16–25 oed



15 munud



Sleid 65



A 7.5x Cardiau
sefyllfaoedd,
A 7.1x Rhestr
cymorth
cyfathrebu

Rydyn ni wedi ail-fformatio taflen waith y gweithgaredd sefyllfaoedd i ddogfen ryngweithiol, *Sefyllfaoedd ariannu a chymorth* – adnodd ychwanegol 7.5x fel gall eich myfyrwyr ysgrifennu eu hatebion eu hunain.

Gallwch chi gynnal hwn ar-lein naill ai mewn grwpiau bach neu'n unigol, a gofynnwch i'ch myfyrwyr ymateb i'r gwahanol sefyllfaoedd gyda'r hyn maen nhw'n meddwl y bydden nhw'n ei wneud. Mae hyn yn weithgaredd arall sy'n gweithio'n dda fel gwaith cartref ac ymchwil annibynnol.



LESSON PLAN 8: CAREERS ACTION PLAN

Gweithgareddau		Amseru	Adnoddau
Gweithgaredd 1	Cynllun gweithredu	20 munud	● A 8.1x Cynllun gweithredu gyrfa diwedd y sesiwn

GWEITHGAREDD 1 CYNLLUN GWEITHREDU

13–16/16–25 oed



20 munud




Sleidiau
78–79



A 8.1x Cynllun
gweithredu
gyrfa

Rydyn ni wedi creu *Cynllun gweithredu gyrfa* – adnodd ychwanegol 8.1x mewn fformat rhyngweithiol a golygadwy i chi ei ddefnyddio. Anfonwch y *Cynllun gweithredu gyrfa* a gofynnwch iddyn nhw nodi eu hatebion ar y daflen. Mae'r gweithgaredd hwn yn bersonol i bob myfyriwr, felly efallai hoffech chi ofyn iddyn nhw i'w wneud fel darn o waith cartref.

CYSYLLTWCH Â NI!



Am unrhyw gwestiynau am y pecyn cymorth hwn, yn cynnwys yr adnoddau sydd ar gael, cysylltwch â **mailbox@ndcs.org.uk**.

Darperir yr adnodd hwn ar Drwydded Llywodraeth Agored sy'n galluogi unrhyw un i gopïo, cyhoeddi, dosbarthu, trosglwyddo ac addasu'r gwaith trwyddedig, ac i'w defnyddio yn fasnachol ac yn anfasnachol. Yn gyfnewid am hyn, bydd rhaid i ail-ddefnyddiwr y cyhoeddiad hwn gydnabod Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar fel ffynhonnell y gwaith.

www.ndcs.org.uk/dwetoolkit

Cyhoeddwyd gyntaf: DYDDIAD 2021

We are the National Deaf Children's Society,
the leading charity for deaf children.

National Deaf Children's Society
Ground Floor South, Castle House
37-45 Paul Street, London EC2A 4LS

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn elusen gofrestredig yn
Lloegr a Chymru rhif 1016532 ac yn Yr Alban rhif SC040779. A0163i



**National
Deaf Children's
Society**
CYMRU